




2. Cawr y Rhondda

'Fi yw'r cryfa o'r cewri i gyd,
Fi yw'r gore yn y byd!'

Brolio, brolio, brolio! Dyna'r cyfan wnâi Hywel Gawr o fore gwyn tan nos. Doedd hwn ddim hanner mor gas â'r hen Rhita, cofiwch, ond roedd o'n dipyn o boen i bawb am ei fod byth a hefyd yn herio'r cewri eraill i ymladd. Roedd pawb yng Nghwm Rhondda wedi cael mwy na digon arno, a'r un gân oedd ganddo o hyd ac o hyd, fel tiwn gron:

'Fi yw'r cryfa o'r cewri i gyd,
Fi yw'r gore yn y byd!'

Wrth gwrs roedd pawb yn cytuno, achos doedd arnyn nhw ddim eisiau rhoi esgus iddo roi cweir iddyn nhw. Ond mewn gwirionedd, er ei fod yn edrych mor gas ac mor uchel ei gloch bob amser, hen fabi mawr oedd Hywel, fel pob bwli. A'r diwedd fu iddo fynd dros ben llestri gyda'i holl frolio a dyma i chi beth ddigwyddodd.

Clywed wnaeth o fod yna gawr mawr yn Iwerddon oedd yn codi ofn ar bawb. Yn wir, roedd pobl yn dweud

mai hwnnw oedd y cawr cryfaf a'r mwyaf yn y byd i gyd. A wyddoch chi beth wnaeth Hywel? Herio'r cawr o Iwerddon i ddod dros y môr i ymladd. Wrth gwrs roedd o'n gwybod yn iawn na fyddai hwnnw'n cymryd dim sylw o'r sialens—neu dyna roedd o'n obeithio beth bynnag.

'Wedi'r cyfan, mae Iwerddon yn ddigon pell dros y môr,' cysuraf Hywel ei hun. 'Er, fe glywais i Nhad yn dweud fod y cawr Bendigeidfran wedi cerdded o Gymru i Iwerddon un tro. Ta waeth, pwy glywodd erioed am gawr o Iwerddon yn dod draw yma? Ddaw e byth, mae hynny'n siwr.'

* * *

Fe aeth misoedd heibio ac erbyn hyn roedd Hywel yn brolio'n fwy nag erioed.

'Mae'n rhaid 'mod i'n gryf. Mae hyd yn oed cawr mawr Iwerddon yn rhy ofnus i ddod dros y môr i ymladd gyda fi.

Fi yw'r cryfa o'r cewri i gyd,
Fi yw'r gore yn y byd!

Roedd pawb wedi cael llond bol ar ei holl frolio, ond allai neb wneud dim, dim ond cytuno.

Yna, un bore, pan oedd Hywel yn eistedd o flaen drws ei fwthyn yn disgwyl i'w wraig wneud brecwast iddo, pwy welai yn y pellter yn dod i'w gyfeiriad ond y cawr mawr o Iwerddon. Roedd hwnnw mor anferth nes ei fod yn edrych fel mynydd mawr yn symud i fyny'r cwm, a'i

ddau lygad yn disgleirio fel dau lyn yn haul y bore. Rhedodd Hywel i'r tŷ wedi dychryn a mynd i guddio o dan y bwrdd.

'Beth ar y ddaear sy'n bod arnat ti?' holodd ei wraig.

'Y cawr o Iwerddon!' llefodd Hywel. 'Mae e ar ei ffordd yma nawr!'

'Ond ro'n i'n meddwl dy fod ti'n edrych ymlaen i'w weld e!'

'Ie, ie, ond cer i'r ffenest i ti gael golwg arno. Mae e'n llawer mwy na fi. O, beth wna i?'

'Rwy'n gwybod,' meddai ei wraig ar ôl meddwl am funud. 'Mae syniad 'da fi! Cer lan stâr a chuddio o dan y gwely.'

'Ond mae e'n siwr o ddod o hyd i mi yno,' protestiodd Hywel.

'Gwna di fel rwy'n dweud,' meddai ei wraig, 'ac efallai y galla i dy achub di. Ond rwyf ti'n gawr ffôl iawn, yn dod â'r holl helynt yma ar dy ben heb fod eisie.'


'Ydw, rwy'n gwybod hynny nawr,' llefodd Hywel. 'Ond os gwnei di fy achub i, wna i byth frolio eto, rwy'n addo.'

'Wir?' meddai ei wraig yn obeithiol, achos roedd hithau wedi cael mwy na digon ar ei glywed yn ei ganmol ei hun o hyd ac o hyd.

'Wir, rwy'n addo,' meddai Hywel.

'Lawn!' meddai ei wraig. 'Siapa! Rho dy 'sgidie i mi a mynd lan stâr i guddio.'

Sleifiodd Hywel i fyny'r staer a chuddio o dan y gwely anferth. Roedd ei galon yn curo'n uchel fel cloc mawr a'i goesau'n crynu fel jeli. Yna gafaelodd ei wraig yn yr esgidiau, eu gosod mewn lle amlwg o flaen y tân a mynd ymlaen i baratoi'r bwyd yn hamddenol, braf.



'Y gore o'r bore i chi! Oes yma groeso i Gwyddel Gawr?' taranodd llais o'r drws.

'Oes, wrth gwrs. Dewch i mewn,' meddai gwraig Hywel gan wenu arno. 'Mae'r bwyd bron yn barod ac mae croeso i chi gael brecwast gyda ni pan ddaw'r gŵr adre.'

'A-ha! Dyna'r un rydw i wedi dod yr holl ffordd i'w weld,' meddai Gwyddel Gawr. 'Ble mae Hywel felly? Yn ei wely?' A syllodd ar yr esgidiau anferth oedd yn gorwedd o flaen y tân.

'Nage, mäs yn hela,' meddai'r wraig wrtho'n syth, gan edrych i fyw ei lygaid. 'Ond fe fydd e'n falch o'ch gweld chi. Fe glywes i e'n dweud sawl tro ei fod yn edrych ymlaen at eich cyfarfod chi.'

'Felly wir? Fe gawn ni weld am hynny. Ond beth ydi'r rhain?' a phwyntiodd y cawr at yr esgidiau ar yr aelwyd. 'Mae Hywel yn hela yn nhraed ei sanau felly? Choelia i fawr. Mae'r broliwr mawr yn y tŷ yma'n rhywle yn cuddio, am ei fod yn ormod o fabi i fy wynebu i.'

'Nag yw, wir,' meddai'r wraig yn daer.

'Pwy biau'r rhain, te?'

'O, 'sgidie'r babi yw'r rheina,' oedd yr ateb. 'Mae e'n ei wely lan stâr, y cariad bach.'

Syllodd Gwyddel Gawr yn syn ar yr esgidiau anferth a dechreuodd feddwl yn galed.

'Conamara!' meddai wrtho'i hun. 'Os ydi'r babi mor fawr â hyn, rhaid fod ei dad yn anferth!'

'Newydd gofio, Musus,' meddai a'i lais yn crynu.

'Mae'n rhaid i mi frysio'n ôl i Iwerddon. Pwyllgor pwysig yn Tipperary . . . gig yn Galway . . . rhaid i mi fynd . . . ar unwaith!'

Trodd ar ei sawdl ac i ffwrdd ag o i lawr y cwm tua'r môr, fel ei a'i gynffon rhwng ei goesau. Roedd am wneud yn siwr ei fod wedi diflannu cyn i Hywel gyrraedd adref!

* * *

'Fe gei di ddod i gael dy frecwast nawr,' galwodd gwraig Hywel arno ymhen sbel.

'Ydi e wedi mynd?'

'Ydi, a ddaw e byth yn ôl chwaith,' chwarddodd hithau.

'Diolch byth!' meddai Hywel yn hapus a dechrau canu, 'Fi yw'r cryfa . . .'

'Gad dy nonsens!' meddai ei wraig yn siort. 'Cofia di beth wnest ti addo i mi. Dim mwy o frolio, neu fe fydda i'n dweud wrth bawb sut y cest ti wared â Gwyddel, y cawr mawr o Iwerddon.'

'O, o'r gore,' cytunodd Hywel yn benisel, a dechrau pwsu'n syth. Roedd yr hen fabi mawr wedi dechrau edrych ymlaen i gael adrodd ei fersiwn ef o'r stori wrth y cewri eraill i gyd. 'A, wel . . .'

O hynny allan, wnaeth Hywel ddim brolio ei fod yn well ac yn gryfach na phawb arall. O, na! Roedd arno ormod o ofn i'w wraig ddweud y gwir am y bore y daeth Gwyddel, y cawr mawr o Iwerddon, i chwilio amdano!

3. Cawr y Carneddau

Geneth fach brydferth iawn oedd Fflur, ond roedd hi'n unig iawn. Hen gawr cas oedd ei thad, Idwal, ac roedd yn rhaid iddi aros yn y castell i edrych ar ei ôl. Gwneud bwyd iddo, golchi a smwddio ei ddillad a glanhau'r hen gastell bob dydd. Doedd hi byth yn cael mynd i'r dref i siopa a doedd ganddi hi ddim un ffrind, druan bach. Doedd yna neb byth yn meiddio dod yn agos i'r castell tywyll ym mynyddoedd y Carneddau chwaith, gan fod Idwal yn gawr mor gas a ffyrnig. Roedd yn waeth o lawer na'r hen Ysbaddaden Bencawr hyd yn oed, ac fel y gŵyr pawb, fe gafodd Olwen druan ddigon o drafferth efo hwnnw. Ond, rhyngoch chi a fi, roedd yna reswm arall hefyd. Doedd yr hen gawr ddim yn hoff iawn o ddŵr a fyddai o byth, byth yn ymolchi!

Yna, un diwrnod, fe aeth Fflur allan i'r caeau o gwmpas y castell i gael tipyn o awyr iach ac i gasglu mwyar duon. Teisen fwyar duon oedd ffefryn ei thad ac roedd hi'n meddwl efallai y byddai o'n llai cas wrthi wedi cael ei hoff fwyd i ginio.

Pwy ddaeth heibio ond bachgen ifanc, hardd.

'Helô,' meddai wrthi. 'Pwy wyt ti?'

'Fflur,' meddai hithau'n swil, gan ddal ei phen i lawr